



Ordinhad 22 Penaethiaid y Cyfadrannau

Corff Cymeradwyo: Y Cyngor

Dyddiad Cymeradwyo: 06 Gorffennaf 2018

Perchennog y polisi: Ysgrifennydd y Brifysgol

Cyswllt y polisi: Geraint Pugh, gop2@aber.ac.uk / 01970 62 2114

Statws y polisi: Diwygiwyd

Fersiwn: 2.0

Dyddiad adolygu: Gorffennaf 2020

ORDINHAD 22

PENAETHIAID Y CYFADRANNAU

1. Penodi penaethiaid y Cyfadranau

1. Bydd gan bob Cyfadran, sef yr Uned Academaidd a gydnabyddir gan y Cyngor yn ôl Ystatud 7 fel un sydd â'r cyfrifoldebau pennaf, bennaeth a benodir gan y Cyngor ar ôl proses recriwtio mewnol neu, gyda chytundeb yr Is-Ganghellor, broses recriwtio allanol.
2. Yr un drefn a ddilynir i benodi pennaeth Cyfadran ac am y telerau cysylltiedig â'r swydd ag a ddefnyddir i benodi Dirprwy Is-Ganghellor.
3. Ar ben dyletswyddau pennaeth Cyfadran, gall yr Is-Ganghellor, wrth benodi i swyddi penaethiaid Cyfadranau, neilltuo iddynt arweinyddiaeth ar fenter, prosiect neu gyfrifoldeb strategol sy'n rhychwantu'r Brifysgol gyfan, ac a all newid o bryd i'w gilydd.

2. Dyletswyddau pennaeth Cyfadran

Bod yn gyfrifol am arweinyddiaeth a datblygiad strategol y Gyfadran yn unol â strategaeth a pholisïau'r Brifysgol. Bydd y cyfrifoldebau allweddol yn cynnwys:

1. Cyfrifoldeb o fewn y Gyfadran am ddatblygu strategol, cynllunio ariannol / busnes a dyrannu adnoddau, cyflawni cynaliadwyedd ariannol dros y tymor byr, y tymor canol a'r tymor hir;
2. Arloesi'n llwyddiannus wrth ddylunio a darparu rhaglenni, trosglwyddo gwybodaeth ac ymchwil gymwysedig, ac wrth ddarparu profiad i fyfyrwyr sy'n arwain y byd;
3. Arwain ar feithrin cysylltiadau allanol â phartneriaid a rhanddeiliaid perthnasol, gan ganolbwyntio ar ddatblygu enw da, effaith ymchwil ac incwm;
4. Cynyddu incwm o grantiau ymchwil i'r Gyfadran, a datblygu ymchwil o safon fyd-eang;
5. Darparu amgylchedd academaidd cefnogol sy'n perfformio i lefel uchel, yn rhoi'r grym i staff allu darganfod cyfleoedd a manteisio arnynt;
6. Rheoli staff - denu, cadw a datblygu staff er mwyn sicrhau rhagoriaeth;
7. Monitro ansawdd y prosesau dysgu ac addysg a bod yn gyfrifol amdano o fewn y Gyfadran;
8. Cefnogi gwaith datblygu ysgolheictod a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, yn unol â thargedau'r Brifysgol a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol;